



Deufis

Eglwysy Bedyddwyr Gogledd Teifi

Gorffennaf-Awst 2022

Trefn Oedfaon y Sul

Sul 3 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	10.30	Ysgol Sul
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog – Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

Sul 10 Gorffennaf

Aberduar	10.00 y bore	
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

Sul 17 Gorffennaf

Noddfa	9.30 y bore	Gweinidog
Aberduar	11.00 y bore	Gweinidog
Brynhafod	2.00 y prynhawn	Oedfa deulu

Sul 24 Gorffennaf

Gwibdaith y Cylch i Sir Benfro—ymuno â chynulleidfa Ebeneser Eglwyswrrw a'r Parchg Sian Elin Thomas—barbiciw i ddilyn—ymweld wedyn â manau yn y sir a phryd hwyr yn y Salutation Inn, Felindre Farchog

Sul 31 Gorffennaf

Oedfa Eisteddfod Genedlaethol, yn y pafilwn Tregaron, 9 y bore
Trefnwyd yr oedfa gan Rhiannon (Aberduar) a Janet (Noddfa)
ymhlith eraill, gyda'r Gweinidog yn traddodi'r neges

Sul 7 Awst

Aberduar

9. 45 y bore

Gweinidog—Cymun

Noddfa

11.00 y bore

Gweinidog—Cymun

Bydd dim oedfaon gweddill Awst tan 28ain**Sul 28 Awst**

Oedfa Eisteddfod Rhys Thomas James Llambed, 10.30 yn
Noddfa: Pregethwr gwadd: Y Parch. Peter Thomas,
Aberystwyth.

Gobeithir cynnal oedfa fedydd ar gyfer eglwysi'r Cylch rhwng nawr
a Mis Medi. Cysylltwch â'r gweinidog am fwy o wybodaeth.
Bydd y manylion yn dilyn.

**COFIWCH DROI AT WEFAN Y
CYLCH****www.bedyddwyrnogleddeifi.org**

**Ewch hefyd i'n
cyfrif Twitter
@BedyddGogTeifi**





**Gwibdaith yr Ofalaeth
Gorffennaf 24ain
yn cychwyn o arosfa bysiau Llanbed
am 9 o'r gloch.**

Byddwn yn ymuno â Chynulleidfa Ebeneser,
Eglwyswrw,
capel y Parch Siân Elin Thomas.

Mae yna wahoddiad i ymuno â'r gynulleidfa i
gael barbeciw ar ôl yr oedfa.

Byddwn wedyn yn ymweld â rhai lleoliadau
diddorol yn Sir Benfro cyn troi am adre.

**Byddwn yn aros yn y Salutation Inn,
Felindre Farchog i gael pryd nos.**

(Angen enwau a'r dewis o bryd nos erbyn Dydd
Llun, Gorffennaf 11eg i'r Ysgrifenyddion os
gwelwch yn dda)

Mair Brynhafod

Taith Gerdded Cymorth Cristnogol : Dydd Sul 29/5/2022



Cafwyd taith gerdded Capel y Bedyddwyr Bethel, Silian er budd elusen Cymorth Cristnogol, wedi ei threfnu gan Beryl a Jennifer. Diolchwyd i Alun Jones, Parc-y-rhos am gynorthwyo gyda'r daith.

Taith hamddenol o bedair milltir a hanner o amgylch plasau'r fro yn ardal Tal-sarn a Felinfach, gan ddechrau ym Mhlas y Gelli, Trefilan, lle adeiladwyd estyniad i'r tŷ gan y pensaer Nash. Bu Dylan Thomas yn byw yn y Gelli o 1941-1943. Wedi dringo'r bryn am Felinfach a gweld dyffryn Aeron a llawr y wlad yn ei holl ogoniant, cyn cyrraedd Plas y Braenog. Croesi'r afon Aeron dros y bont a ailadeiladwyd ym 1935 wedi i'r bont flaenorol syrthio i fewn i'r afon.

Nôl wedyn am Leiandy Llan-llŷr a'r gerddi prydfferth a gweld carreg gerfiedig Geltaidd o'r 7fed ganrif sydd yno. Cipolwg ar hen dŷ-fferm Tŷ Mawr, a gweld o bell Blas Abermeurig a Phlas Threfilan. Sylwyd hefyd ar fyd natur yn cynnwys y barcud coch, boda, fffestantod a hwyaid gwyllt ar lan yr afon Aeron.

Cafwyd prynhawn pleserus mewn ardal newydd i lawer o'r pymtheg cerddwr a fu ar y daith. Roedd hyn yn rhan o ymgyrch Cylch Llambod o Gymorth Cristnogol, a'r casgliad yn cyfrannu at y cyfanswm anrhydeddus o £3,795.65 a godwyd yn yr eglwysi lleol ar hyd y mis.